

Chwefror 15fed 2021

Annwyl gyfeillion,

Fel y gwyddoch, mae Ardal Genhadaeth Penedeyrn wedi bod drwy broses o Adolygiad Ardal Genhadaeth yn ddiweddar. Ysgrifennaf er mwyn rhoi diweddariad i chi ar y broses. Ym mis Medi cyhoeddwyd adroddiad ar ein heglwysi a'n gweinidogaeth ac anfonodd Archddiacon Barry lythyr gyda nifer o argymhellion. Anfonodd lawer ohonoch sylwadau yn ôl ato. Yna cafodd yr argymhellion eu trafod gan y MAC, sef pwyllgor ymddiriedolwyr yr Ardal Genhadaeth.

Ym mis Ionawr ysgrifennodd yr Esgob at y MAC a'r Cynghorau Eglwysig i gadarnhau'r ffordd ymlaen. Ar Ionawr 31 cyhoeddwyd y bydd y Barchedig Sandra Roberts yn symud i Ardal Genhadaeth Caereinion yn yr haf. Mae hyn yn newyddion trist iawn i ni a byddwn yn colli y Barch. Sandra yn fawr. Rwy'n siwr ein bod ni i gyd yn dymuno pob bendith ar ei gweinidogaeth yng Nghaereinion.

Mae'r Esgob yn cadarnhau yn ei lythyr bod Penedeyrn dim ond yn gallu fforddio un clerig cyflogedig. Mae'n gofyn felly i ni ymchwilio cyfuno gyda Valle Crucis (sef yr Ardal Genhadaeth yn cynnwys Corwen a Llangollen) er mwyn sicrhau bod pob rhan o'r Ardal Genhadaeth yn cael y weinidogaeth mae ei hangen. Bu i'r MAC gyfarfod wythnos diwethaf a sefydlu pwyllgor weithredol i drafod y posibilïad gyda chynrychiolwyr o Valle Crucis. Mae'r Esgob hefyd yn cadarnhau y bydd eglwys St Catherine, Maerdy yn cau a bythynnod Maerdy yn cael eu gwerthu. Mae'n gofyn i ni fynd ymlaen gyda gweddill yr argymhellion yn yr Adolygiad.

Dyma'r camau nesaf ar gyfer yr Ardal Genhadaeth, yn ôl yr Adolygiad.

- Yn y Bala, mae angen mynd i'r afael â'r sefyllfa ariannol ar frys, gan nad oes unrhyw gronfa wrth gefn gan yr eglwys bellach.
- Yng Ngherrigydrudion, bydd ymgynghoriad gyda'r gymuned er mwyn trafod y posibilïad o ailwampio'r eglwys.
- Yng Nghynwyd, bydd ymgynghoriad gyda'r gymuned ynglŷn â chau adeilad yr eglwys.
- Yn Llandrillo, bydd y cynllun i roi toilet yn y fynwent yn mynd yn ei flaen er mwyn ddatblygu gweithgareddau pellach.
- Bydd eglwys S. Mihangel, Llanfihangel yn parhau i fod yn Eglwys Bererin gyda chyfres o wasanaethau arbennig pob blwyddyn.
- Mae eglwys S. Derfel, Llandderfel wedi cyflwyno cais i fod yn Eglwys Bererin hefyd, ond nid ydynt yn debyg o glywed mwy tan mis Medi oherwydd bod y cynllun Eglwysi Bererin o dan adolygiad.
- Mae ffyrdd newydd o addoli ac addoli ar-lein yn dod â thyfiant, a dylid eu cynnal a'u hymestyn lle bynnag y bo modd.
- Dylid symud rhoi ariannol yr Ardal Genhadaeth gyfan ar-lein gymaint â phosib.

Yn amlwg, mae sefyllfa Covid-19 yn ei gwneud hi'n anodd gweithredu rhai o'r cynlluniau hyn yn y tymor byr. Fel gyda pob elusen, mae sefyllfa ariannol yr eglwysi wedi dioddef yn fawr yn sgil Covid. Mae'r cynllun Rhoi yn Syth (Gift Direct) yn ei gwneud hi'n bosib ac yn saff i roi yn uniongyrchol i eglwysi unigol drwy Direct Debit. A wnewch chi plis ystyried gwneud hyn os medrwch; rhoddir manylion ar ddiwedd y llythyr. Rhaid i ni weithio gyda'n gilydd i sicrhau dyfodol cynaliadwy i'n heglws a gwerthfawrogir pob rhodd yn fawr.

Mae'r broses Adolygiad wedi bod yn un anodd ac mae rhai o'r penderfyniadau yn boenus i'r rhai sy'n cael eu heffeithio ganddynt. Mae Esgob Gregory yn gorffen ei lythyr drwy ddweud bod yn rhaid i'n heglwysi ffindio ffordd newydd o fod, wedi'r pandemig. Gyda'n gilydd, mae'n gobeithio y byddwn yn ffindio ffordd gynaliadwy, greadigol ac effeithiol o wneud hyn; ffordd sydd yn anrhydeddu'r gorffennol ac yn rhoi cyfleuon newydd ar gyfer y dyfodol. Dyna fy ngweddi bersonol innau hefyd.

Plis daliwch ati i weddio dros yr Ardal Genhadaeth. Mi wn ei bod hi'n anodd bod yr eglwysi yn dal ar gau. Edrychaf ymlaen yn fawr iawn at gyfarfod unwaith eto.

Gyda phob dymuniad da,



Dr Cass Meurig Thomas
Arweinydd yr Ardal Genhadaeth

Cewch hyd i fanylion Rhoi yn Syth ar y wê fan hyn:
<https://www.churchinwales.org.uk/cy/clergy-and-members/gift-direct/>
neu drwy ebostio giftdirect@churchinwales.org.uk neu ffonio 029 2034 8216.